**Darren Millar AS - Ymweliad â Brwsel**

**Rhagfyr 2023**

## Diben yr Ymweliad

Cefais wahoddiad i fynychu a chyfrannu at gyfres o ddigwyddiadau ym Mrwsel ym mis Rhagfyr 2023.

Roedd yr ymweliad yn gyfle i rwydweithio â seneddwyr o wledydd eraill, trafod arferion seneddol a rhannu arfer gorau o ran ymgysylltu â ffydd mewn gwleidyddiaeth.

## Cwrdd â dirprwyaeth Palesteina

Ar Ragfyr 5ed, cefais gyfle i gwrdd â dirprwyaeth o Balesteina, gan gynnwys Ei Ardderchogrwydd Abdairrahim Alfarrahim, Pennaeth Cenhadaeth Palesteina i'r UE, Gwlad Belg a Lwcsembwrg; Amria Hanania, Rheolwr Cyffredinol Pwyllgor Materion Eglwysig yr Arlywyddiaeth Uwch ym Mhalesteina; Y Parchedig Athro Mitri Raheb, sylfaenydd a Llywydd Prifysgol Dar al-Kalima ym Methlehem, a'r Parchedig Dr Jack Sara, Llywydd Coleg y Beibl, Bethlehem.

Roedd y cyfarfod yn gyfle i drafod y gwrthdaro parhaus yn Gaza a'r effaith ehangach ar y gymuned Gristnogol yn Israel, Palesteina a'r Dwyrain Canol.

## Cyfarfod rhwydweithio

Yn y prynhawn ar Ragfyr 5ed, es i gyfarfod rhwydweithio yn Club des Officiers du Régiment des Guides Asbl lle cwrddais ag arweinwyr gwleidyddol ac arweinwyr ffydd a chefais drafodaethau eang ar faterion cyfoes. Roedd hyn yn cynnwys cymharu'r camau sy'n cael eu cymryd mewn awdurdodaethau gwahanol gan seneddwyr a chyrff anllywodraethol mewn ymateb i'r gwrthdaro yn Wcráin a Gaza a'r problemau ehangach sy'n codi yn sgil chwyddiant a natur wenwynig bresennol trafodaethau gwleidyddol.

## Digwyddiad yn Bibliothèque Royale de Belgique

Cynhaliwyd digwyddiad gyda'r nos ar Ragfyr 6ed yn y Bibliothèque Royale de Belgique. Daeth tua 300 o gynadleddwyr i'r digwyddiad ac roedd yn gyfle i gwrdd â Sharren Haskel MK, Aelod o'r Knesset, i drafod y cynnydd mewn gwrth-semitiaeth yn ddiweddar yn dilyn ymosodiadau Hamas ar Hydref 7fed a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r hiliaeth a'r casineb y mae cymunedau agored i niwed yn eu hwynebu ers hynny.

Roeddwn i'n gallu rhoi gwybod i Ms Haskel am yr ymgysylltiad rhagorol yng Nghymru rhwng y Senedd a chymunedau ffydd a'r gwaith trawsbleidiol sy'n mynd rhagddo yn Senedd Cymru

i fynd i'r afael â hiliaeth a hyrwyddo gwaith cymodi a chysylltiadau da rhwng y cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig.

**Cwrdd â Dirprwyaeth Wcráin**

Yn ystod y digwyddiad yn y Bibliothèque Royale, cefais gwrdd â dirprwyaeth Wcráin. Roedd yn gyfle i mi fynegi cefnogaeth barhaus pobl Cymru a'r Senedd i bobl Wcráin.

Dywedodd y ddirprwyaeth eu bod yn gwerthfawrogi cefnogaeth Senedd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gan danlinellu bod angen cymorth ymarferol pellach yn wyneb ymosodiad Rwsia. Ers hynny rwyf wedi rhoi gwybod am yr anghenion hyn i'm cydweithwyr yn y Senedd a Llywodraeth Cymru.

**Brecwast Gweddi Ewrop**

Cynhaliwyd Brecwast Gweddi Ewrop yn Senedd Ewrop ar fore Rhagfyr 6ed. Digwyddiad dan ofal Catharina Rinzema ASE a Lukas Mandl ASE oedd hwn.

Rhoddwyd y brif araith gan Eduard Heger, cyn Brif Weinidog Slofacia, ac roedd hefyd yn cynnwys teuluoedd gwystlon Hamas o Israel.

O ystyried fy nghysylltiadau ag Israel a Phalesteina, gofynnwyd i mi gymryd rhan yn y rhaglen drwy gyflwyno'r Parchedig Dr Jack Sara a Sharren Haskel MK a'u gwahodd i gynnig eu myfyrdodau personol ar effaith yr ymosodiadau ar Hydref 7fed a'r gwrthdaro parhaus rhwng Israel a Hamas, cyn arwain gweddi dros bawb y mae'r digwyddiadiau hyn wedi effeithio arnynt.

Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan westeion rhyngwladol eraill.

**Sesiynau rhwydweithio dros ginio a gyda'r nos**

Trefnwyd cinio ac yna sesiwn rhwydweithio gyda'r nos ar gyfer y cynrychiolwyr. Roedd y rhain yn gyfle arall i gwrdd â seneddwyr rhyngwladol ac eraill a thrafod:

- rôl ffydd yn yr ymdrechion i sicrhau heddwch a chymod rhwng gwledydd
- ffydd yn y sgwâr cyhoeddus
- annog cymunedau ffydd i ymgysylltu â chynrychiolwyr etholedig a llywodraethau

**Darren Millar AS**
**Gorllewin Clwyd**